

CTM2030 Community Leaders' Network

Rhwydwaith Arweinwyr Cymunedol CTM2030

Datblygu Cymunedau
Iachach Gyda'n Gilydd

Building Healthier
Communities Together

CTM2030
Ein Hiechyd
Ein Dyfodol
OUR HEALTH OUR FUTURE
BUILDING HEALTHIER
COMMUNITIES TOGETHER



CTM2030
Our Health
Our Future
BUILDING HEALTHIER
COMMUNITIES TOGETHER



Rhwydwaith Arweinwyr CTM2030: Penawdau a champau gweithredu

Dyddiad y Cyfarfod: 26/01/24

Pwrrpas y papur briffio hwn yw rhoi'r brif wybodaeth i chi a champau gweithredu / camau nesaf o gyfarfod diweddaraf Rhwydwaith Arweinwyr Cymunedol CTM2030.

Gellir dod o hyd i'r papurau diweddaraf a gwybodaeth ategol yma - [Rhwydwaith Arweinwyr Cymunedol CTM2030 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg \(gig.cymru\)](#)

Anfonwch unrhyw gwestiynau neu ymholiadau at [Natasha Weeks](#), Pennaeth Ymgysylltu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Os oes unrhyw adborth neu geisiadau gyda chi, e-bostiwch ein blwch post ymgysylltu CTM2030 - CTM.OurHealthOurFuture@wales.nhs.uk (pwnc: CTM2030 Leaders' Network)

Penawdau a chmau gweithredu gan Rwydwaith Arweinwyr Cymunedol CTM2030 (Ionawr 2023)

Pwnc	Camau i'w cymryd	Manylion Cyswllt
Diweddariadau ar gynnydd: 1. Cynllun Gwasanaethau Clinigol Acíwt (ACSP) Rhannodd Linda Prosser, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Thrawsnewid, CTM UHB, sut mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda thimau clinigol y Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu Cynllun Gwasanaethau Clinigol Acíwt (ACSP) newydd ar gyfer diwallu anghenion gofal iechyd poblogaeth Cwm Taf Morgannwg yn y dyfodol. Meysydd trafod allweddol: - Amlinelliad o ddull y Bwrdd Iechyd o ymdrin â newidiadau i wasanaethau clinigol - Datblygu strategaeth gyfathrebu ar gyfer ymgysylltu a chynnwys staff CTM, y cyhoedd a phartneriaid wrth ddatblygu'r ACSP.	Awgrymwyd i aelodau'r Rhwydwaith, a'u croesawu, i drefnu digwyddiad ymgysylltu ACSP ar wahân (y tu allan i Rwydwaith yr Arweinwyr) er mwyn deall sut i ymgysylltu â sefydliadau cymunedol a thrigolion yn effeithiol o amgylch yr ACSP a'i gerrig milltir. Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu cyn cyfarfod nesaf yr Arweinwyr (26 Ebrill) Bydd y Bwrdd Iechyd yn cysylltu ag aelodau sydd wedi dweud yr hoffent gysylltu â nhw am yr ACSP (drwy daflenni cofrestru digwyddiadau). Os nad oeddech yn bresennol yn y cyfarfod, gallwch barhau i gymryd rhan drwy e-bostio Victoria Wallace - Victoria.Wallace@wales.nhs.uk neu Natasha.Weeks2@wales.nhs.uk Defnyddiwch y pwnc e-bost canlynol - CTM UHB - Acute Clinical Services Plan	Adborth cyffredinol: CTM.OurHealthOurFuture@wales.nhs.uk ACSP: Victoria.Wallace@wales.nhs.uk Natasha.Weeks2@wales.nhs.uk

Cyflwyniad diweddaraf ar yr ACSP - Rhwydwaith Arweinwyr Cymunedol CTM2030 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (nhs.cymru). Diweddariad nesaf - Cyfarfod Ebrill 2. Iechyd y boblogaeth Rhoddodd Philip Daniels, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP CTM, ddiweddariad ar lafar am y gwaith sydd ar y gweill o fewn y Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael ag un o'r heriau iechyd poblogaeth fwyaf ar gyfer Cwm Taf Morgannwg — Diabetes (gydag achosion cynyddol o Fath 2). Tynnodd sylw at weithio mewn partneriaeth gyda'r corff iechyd cyhoeddus cenedlaethol, Iechyd Cyhoeddus Cymru i: • Helpu pobl i reoli eu cyflyrau • Nodi ffactorau risg (gan ddefnyddio offeryn data poblogaeth ar gyfer y rhanbarth)	• Datblygu partneriaethau cymunedol a'r trydydd sector ymhellach, ar gyfer codi ymwybyddiaeth o Diabetes, darparu gwybodaeth am reoli gofal ac atal risg ac ar gyfer creu gwell cyfleoedd iechyd. Sgyrsiau ac ymagwedd i gael eu llywio gan brofiad byw. • Canolbwyntio'n barhaus ar gynyddu gwaith y Bwrdd Iechyd gydag ysgolion - ymgysylltu ieuenctid, e.e. addysg a chyflogaeth wedi'i amlygu fel penderfynyddion craidd i iechyd.	CTM.OurHealthOurFuture@wales.nhs.uk
---	---	---

• Cefnogi pobl i leihau ffactorau risg ar gyfer diabetes math 2, gan ddefnyddio mewnwelediadau ymddygiadol. 3. Gwybodaeth fel rhwystr i iechyd Diweddariad ar lafar gan Linda Prosser ar y demo o blatfform technoleg a rennir gan Unite Us (darparwr allanol), ar gyfer Gwella cydlyniad gofal ar draws rhanbarth Cwm Taf Morgannwg yng nghyfarfod 26 Hydref. Cliciwch yma am y cyflwyniad- Rhwydwaith Arweinwyr Cymunedol CTM2030 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (gig.cymru).	Yn ein cyfarfod ym mis Hydref 2023, roedd adborth manwl ynghylch: • Integreiddio a/dyblygu gyda systemau presennol. • Cyfyngiadau capasiti sylweddol o fewn y trydydd sector (gan gynnwys grwpiau cymunedol i'w cefnogi (ar gyfer optimeiddio buddion). • Cydymffurfiaeth GDPR. Rydym wedi rhannu eich adborth gydag Unite Us sydd wedi ei groesawu. Fel rhanbarth rydym yn parhau i archwilio'r hyn y gallai system fel hon ei wneud, a ble y byddai'n ychwanegu budd, gan ennill dealltwriaeth o angen a gwerth ychwanegol. Mae nifer o wahanol opsiynau system ar gael a phe baem yn bwrw ymlaen â hyn fel rhanbarth byddai angen i ni ddilyn rheolau caffael priodol.	
--	--	--

Cyflwyno Gwasanaeth Gofal Alcohol Cwm Taf Morgannwg Cyflwyniad a throsolwg o sut mae Cwm Taf Morgannwg wedi cymryd dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ddarparu Gwasanaeth Gofal Alcohol 24/7 newydd ar gyfer pobl y mae dibyniaeth ar alcohol yn effeithio ar eu bywyd.	Cafodd sefydliadau cymunedol eu cyfeirio at wybodaeth sydd ar gael yn ymwneud ag yfed alcohol gan gynnwys cymorth a gwybodaeth i famau sy'n disgwyl drwy ymgyrch 'Drymester' sy'n hyrwyddo dim goddefgarwch o alcohol yn ystod beichiogrwydd. Gallwch lawrlwytho cyflwyniad a deunyddiau cymunedol yma - 26 Ionawr 2024 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (nhs.cymru) Gwrandewch ar brofiadau byw ein Grŵp Cynnwys Gwasanaeth Alcohol yma (y cafodd eu geiriau eu troi'n gân o'r enw 'Bridge the Gap' — https://youtu.be/d88UEJID8Xo Cafodd sawl cysylltiad yn y digwyddiad rhwng y Tîm Gofal Alcohol a sefydliadau cymunedol, ar gyfer hyrwyddo'r gwasanaeth o fewn cymunedau lleol ac am gefnogi allgymorth cymunedol.	Os ydych yn credu y byddai eich grŵp cymunedol yn elwa o gefnogaeth neu ragor o wybodaeth, cysylltwch â'n Arweinydd Gofal Alcohol - Kyle.Newton@wales.nhs.uk
Rhwydweithio Mwy o amser ar gyfer rhwydweithio yn y sesiwn hon yn seiliedig ar adborth.	Un uchafbwynt yr adroddiad oedd bod rhwydweithio yn fudd allweddol i aelodaeth Rhwydwaith, felly adeiladwyd mwy o amser yn yr	Natasha.weeks2@wales.nhs.uk

	agenda ar gyfer adeiladu cysylltiadau. Bydd hyn yn rhan safonol o gyfarfodydd yn y dyfodol. Bydd manylion aelodaeth y rhwydwaith yn cael eu hychwanegu at Hwb Arweinydd Cymunedol (drwy gydsyniad) - Rhwydwaith Arweinwyr Cymunedol CTM2030 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (nhs.cymru)	
Arall 1. CTM fel sefydliad sy'n ymgysylltu - Dweud eich dweud Wrth i ni edrych ymlaen at flwyddyn arall o ymgysylltu a gweithio gyda chi er manteision ein cymunedau, hoffem gael eich adborth ar beth sy'n gweithio, beth sydd angen newid neu wella i chi? Llenwch yr arolwg byr iawn i rannu eich barn am bopeth o'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu yn y sesiynau i fformat y cyfarfod, lleoliadau ac amseru.	Cwblhewch yr arolwg drwy ein Hwb Arweinwyr Cymunedol CTM - CTM fel sefydliad sy'n ymgysylltu - Dweud eich dweud (office.com)	Natasha.weeks2@wales.nhs.uk

Bydd eich adborth yn cael ei drafod/rhannu cyn ein cyfarfod Ebrill nesaf. 2. Cylch Gorchwyl Oherwydd cynydd y rhwydwaith yn dilyn ei sefydlu (Mawrth 2022), mae rhai Cylch Gorchwyl cyffredinol yn cael eu datblygu a byddant yn cael eu rhannu ar gyfer eich adborth. 3. Canolfan Arweinwyr Cymunedol Gallwch cyrchu ein Hwb Cymunedol ar gyfer: - Gwybodaeth ddiweddaraf am y cyfarfod - Uchafbwyntiau a chamau gweithredu cyfarfod	Mae Cylch Gorchwyl Cyffredinol yn cael eu datblygu a bydd yn cael ei rannu ar gyfer eich adborth, gan amlinellu: • Diben ac uchelgeisiau Rhwydwaith Arweinwyr Cymunedol CTM ar gyfer Adeiladu Cymunedau Iachach; ar draws CTM a gwella iechyd y boblogaeth; • Amlinellu'r cyfleoedd partneriaeth; a • Sefydlu'r cysylltiad rhwng Rhwydwaith yr Arweinwyr a Fforymau rhanbarthol presennol eraill. Oes gennych chi unrhyw weithgaredd yr hoffech ei hyrwyddo ar draws Cwm Taf Morgannwg? Cymerwch gip ar yr hyn y mae eraill yn ei rannu ac anfonwch unrhyw gynnwys perthnasol at Natasha Weeks - Natasha.weeks2@wales.nhs.uk; a fydd yn gweithio gyda chi i hyrwyddo ar-lein.	
---	---	--

- Asedau cymunedol (ar gyfer cefnogi rheoli ac atal iechyd) - Newyddion Cymunedol - cyfeirio gweithgareddau iechyd a lles sy'n digwydd ar draws ein rhanbarth a'r ymgyrchoedd diweddaraf - Ardaloedd a lleoliadau i'w llogi Dolen: Rhwydwaith Arweinwyr Cymunedol CTM2030 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (GIG.cymru) Sylwer bod hwn yn ychwanegiad newydd i'n Hwb a bydd yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd. Daliwch ati i wirio'r dudalen yn rheolaidd am y diweddariadau diweddaraf. 4. Cadwch y dyddiad • Dydd Gwener, 26 Ebrill 2024 • Amser: 9.30-11.30yb • Lleoliad: Pen-y-bont ar Ogwr (lleoliad i'w gadarnhau) • Agenda i'w dilyn Rydym yn gobeithio eich gweld chi yno.		
--	--	--

